**Gosodiadau Hyrwyddol a Digwyddiadau Marchnad Abertawe**

**Gwybodaeth am y Safle**

**Marchnad Abertawe**

Mae Marchnad Abertawe’n lleoliad eiconig yng nghanol dinas Abertawe, a'r farchnad dan do fwyaf yng Nghymru.

Gyda thros 900 o flynyddoedd o hanes, mae'r farchnad enwog hon yn gartref i dros 100 o fasnachwyr gwych sy'n cynnig popeth o gynnyrch ffres, lleol a bwyd blasus i hen bethau ac anrhegion pwrpasol.

Mae'r farchnad yn boblogaidd gyda phreswylwyr a thwristiaid ac mae dros 70,000 o ymwelwyr yr wythnos yn ymweld â hi ar gyfartaledd.

Fel defnyddiwr y cynllun Gosodiadau Hyrwyddol a Digwyddiadau mae cyfle i'ch gweithgaredd gael ei hyrwyddo ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sydd â thros 10,000 o ddilynwyr.



**Safleoedd dynodedig**

Mae 3 ardal wedi'u dynodi ar gyfer Gosodiadau Hyrwyddol a Digwyddiadau




*Gardd y Farchnad*

Ardal amlswyddogaethol yng nghanol Marchnad Abertawe. Fe’i dyluniwyd yn bennaf fel lle i gwsmeriaid fwyta, gweithio a mwynhau, a gellir trawsnewid Gardd y Farchnad hefyd yn ardal ar gyfer cerddoriaeth fyw, arddangosfeydd, dathliadau tymhorol a marchnadoedd bach.



*Gardd y Farchnad*

*Safle A*

Mae ein hardal fasnachu achlysurol yng nghanol Marchnad Abertawe ar gael ar gyfer gosodiadau hyrwyddol pan nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer masnachu. Mae hi ger y rotwnda gocos boblogaidd a'r stondin pice ar y maen ffres, y mae'r ddwy'n gweini danteithfwyd lleol. Mae gan yr uned bŵer a mynediad at sinc yn ogystal â hysbysfyrddau sialc y gellir eu haddasu.



*Safle A*

Safle B

Mae Safle B ger mynedfa brysur Stryd Rhydychen, sy'n agor i brif heol siopa canol dinas Abertawe, ac mae hefyd ar gael ar gyfer gosodiadau hyrwyddol pan nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer masnachu. Mae gan Safle B ddigon o le ar gyfer bwrdd a baneri bach i'w tynnu i fyny.




*Safle B - yn cael ei ddefnyddio gan y Lleng Brydeinig Frenhinol*

**Mynediad**

Nid oes parcio ar gael ar safle Marchnad Abertawe, fodd bynnag, mae cilfach lwytho y gellir ei defnyddio ar gyfer Gosodiadau Hyrwyddol a Digwyddiadau.

Mae'n rhaid trefnu mynediad at y gilfach lwytho ymlaen llaw gyda Goruchwyliwr y Farchnad.